# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| **Cynghorydd:** | Paxton Hood-Williams | Adran Etholiadol: | Fairwood |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Rwyf wedi bod yn weithgar iawn yn y gymuned, ac roeddwn/rwyf yn dal i fod yn Gadeirydd Cyngor Cymuned y Crwys ac yn aelod o Gyngor Cymuned Cilâ Uchaf. Roeddwn yn Gadeirydd Cymdeithas Chwaraeon y Crwys a'r Rhanbarth, a ddatblygodd Coetir Cymunedol y Crwys a rheoli'r safle gan gynnwys y maes pêl-droed. Rwy'n Gadeirydd Panel Gwarchod Cymdogaeth y Crwys, sy'n gweithio i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal. Gwelais mai prin roedd preswylwyr yn dod i'r cymorthfeydd, ond roeddent bob amser yn cysylltu â fi pan oedd ganddynt bryderon. O ganlyniad, rwyf wedi ymdrin â nifer o broblemau unigol yn ogystal â datrys problemau ward cyffredinol, megis atgyweirio tyllau yn yr heol, problemau draenio, etc., pryd bynnag rwy'n eu gweld neu pan fydd preswylwyr yn cysylltu â fi.

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir y % presenoldeb sy'n seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Archwilio | 9 | / | 10 | 90 | % |
| Pwyllgor Arfarnu a Chydnabyddiaeth Ariannol y Prif | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Gweithgor y Cyfansoddiad | 2 | / | 2 | 100 | % |
| Y Cyngor | 17 | / | 17 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 | / | 7 | 86 | % |
| **YN GYFFREDINOL** | **35** | **/** | **37** | **95** | **%** |

Cyfarfodydd Craffu:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Panel Perfformiad Craffu y Gwasanaethau Plant a | 9 | / | 9 | 100 | % |
| Panel Perfformiad Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol | 6 | / | 6 | 100 | % |
| Panel Craffu Gwella Gwasanaethau a Pherfformiad Cyllid | 13 | / | 15 | 87 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Gwella Gwasanaethau i Blant sy'n | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Gwaith Cymdeithasol yn y Cartref | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Panel Craffu'r Gwasanaethau Trawsnewid y Gwasanaethau | 9 | / | 10 | 90 | % |
| Panel Perfformiad Craffu Lles | 4 | / | 6 | 67 | % |
| **YN GYFFREDINOL** | **47** | **/** | **54** | **87** | **%** |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Roedd gennyf gyfrifoldeb penodol fel Cynullydd (Cadeirydd) y Panel Perfformiad Craffu Lles, a oedd yn monitro perfformiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Roedd rôl y Panel hwn yn hanfodol wrth fonitro effeithiolrwydd y gwasanaeth, a bydd yn gwneud argymhellion ar feysydd i'w gwella a sut gellir eu gwella. Mae'r rôl yn cynnwys gweithio gyda swyddogion craffu ac aelodau'r panel i ddatblygu'r rhaglen waith a phennu cyfeiriad cyfarfodydd a'r wybodaeth i'w chael gan swyddogion adrannau.

Roeddwn hefyd yn aelod o'r Panel Gwella Gwasanaethau a Chraffu Cyllid, a oedd yn monitro perfformiad ar draws y cyngor ac yn monitro gorwariant ariannol.

Roeddwn yn aelod o'r Panel Ymchwilio Craffu Gofal Cymdeithasol yn y Cartref, sy'n rhoi argymhellion ar y ffordd ymlaen ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion. Ar hyn o bryd, mae'r

gwasanaeth yn cael ei drawsnewid yn sylweddol, ac mae'n faes allweddol i sicrhau y darperir ar gyfer preswylwyr hŷn Abertawe'n iawn.
Roeddwn yn aelod o Banel Perfformiad Craffu y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, sy'n monitro cynnydd y prosiectau BGLI a'i brosesau. Roeddwn hefyd yn Arweinydd Grŵp Ceidwadwyr y cyngor ac yn brif siaradwr yn ystod dadleuon gwleidyddol.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**
Mae materion Diogelwch Ffyrdd yn bryder mawr i breswylwyr Ward Fairwood. Heol Gŵyr yng Nghilâ Uchaf, Heol Tirmynydd yn y Crwys a'r heol trwy'r Wern sy'n codi'r pryderon mwyaf. O ganlyniad, roeddwn mewn cyswllt rheolaidd â swyddogion priffyrdd i benderfynu ar ffyrdd o wella diogelwch ffyrdd, ac yn benodol i ostwng cyflymder traffig. Fodd bynnag, mae mesurau cynyddrannol yn cael eu cymryd yn barhaol, megis gosod arwyddion dangos cyflymder, marciau heol, tawelu traffig etc., a bydd y rhain yn parhau i gael eu gwella.
Bydd parcio o amgylch ein hysgolion yn broblem, heb ateb syml. Fodd bynnag, o gwmpas Cilâ, yr effaith yw lleihau cyflymder cerbydau'n sylweddol, sy'n golygu bod plant yn ddiogelach wrth gyrraedd a gadael.
Mae diffyg palmentydd yn broblem benodol yn y Crwys a byddaf yn gweithio gyda'r cyngor cymuned i ddarparu mynediad arall i gerddwyr lle y bo modd.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**
Rwyf wedi bod i'r sesiynau hyfforddi canlynol:
29/01/2015 - Gwneud Craffu'n Fwy Effeithiol
25/11/2014 - Y Ffordd Orau o Ddefnyddio Gwybodaeth am Berfformiad
31/10/2014 - Diogelu
08/10/2014 - Manteisio i'r Eithaf ar eich Tabled/Ffôn Clyfar
04/08/2014 - Cynnwys y Cyhoedd
03/07/2014 - Rhyddid Gwybodaeth
03/07/2014 - Diogelu Data (gan gynnwys rôl fel Rheolwr Data)

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**
Rwy'n llywodraethwr ysgolion cynradd Cilâ a'r Crwys, ac rwy'n falch fy mod yn cyfrannu at y ddwy ysgol hyn, sy'n rhoi profiad dysgu rhagorol i'n plant.
Rwyf bron bob tro'n mynydchu cyfarfodydd PACT yr ardal, ac yn gweithio'n agos gyda'n Plismon Cymunedol a'n PCSOs (Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu) i leihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau.
Rwy'n aelod o Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr, sydd â chyfrifoldeb dros fonitro a rhoi Cynllun Rheoli Gŵyr ar waith, rwyf hefyd yn aelod bwrdd Partneriaeth Tirweddu Gŵyr, sy'n gyfrifol am weinyddu a rhoi prosiectau ar waith o ganlyniad i gael £2 filiwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ac eraill am brosiectau ar draws Gŵyr.
Rwy'n Gadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Abertawe, sy'n gweithio i wella defnydd hamdden o dir mynediad cyhoeddus, gan leihau'r aflonyddwch i berchnogion tir.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300. Nid wyf erioed wedi cyflwyno ffurflen hawlio treuliau.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 01.11.15 |